

Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLIME)
Cyngor Llawn / Full Council
Llyfrgell Benllech Library
23/03/2026 @ 19:00

Cynghorwyr:
Councillors:

John Humphreys (Cadeirydd / *Chair*)
Iwan Kellett (IK) - (Is-Gadeirydd / *Vice Chair*)
Huw G Owen (HGO)
Rhian Mair Jones (RhMJ)
Wenda Owen (WO)
Eira Fôn Parry (EFP)
Gwyneth Davies (GD)
Barbara Price (BP) – Ymunodd dros y ffôn | *Joined remotely*
Rhodri Owen (RhO)
Ieuan Williams (IW)

Clerc:
Clerk:

Laura Sutton (LS)

Cyfieithydd:
Translator:

Dim angen ar gyfer y cyfarfod hwn | *Not required for this meeting*

Datganiadau o Ddiddordeb:
Declarations of Interest:

Dim | *None*

1. Ymddiheuriadau | Apologies

Sioned Wyn (SW)
Rhys Jones (RhJ)

2. Cyfanogiad y Cyhoedd | Public Participation

Dim | *None*

3. Datganiad o diddordeb | Declaration of Interest

Dim | *None*

4. Cofnodion Cyngor Llawn | Minutes Full Council 23 - 02 - 2026

Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol derbyn y cofnodion hyn fel cofnod cywir. | *It was proposed, seconded and agreed unanimously to accept these minutes as a true record.*

5. Materion Cymunedol | Community Matters

i)

Sedd Gwag | Vacant Seat

Penodi drwy Gyfethol – Ystyried cais i lenwi'r sedd wag a phenderfynu ar y camau nesaf | Co-option – To consider an application for the vacant seat and agree next steps.

Rhannodd y Clerc e-bost gan unigolyn a oedd â diddordeb mewn llenwi'r sedd wag ar y Cyngor. Trafododd yr aelodau ei chais ac fe bleidleisiodd y Cyngor yn unfrydol i'w gwahodd i gyfarfod mis Ebrill er mwyn cyfarfod â'r aelodau, gofyn ac ateb cwestiynau, a llofnodi'r dogfennau priodol | *The Clerk shared an email from an individual who expressed an interest in filling the vacant seat on the Council. Members discussed her application and voted unanimously in agreement to invite*

her to the April meeting to meet members, ask and answer questions, and sign the appropriate paperwork.

ii) **Pant y Saer – Gwaith torri ac arwyddion | Annual cutting and signage.**

Nododd y Clerc fod safleoedd Pant y Saer wedi'u torri a'u clirio. Adroddwyd bod Arwel o'r Cyngor Sir wedi gofyn i'r Cyngor drefnu arwyddion ar gyfer y safle i gyfeirio pobl ato ac i'w haddysgu am ei hanes. Trafododd yr aelodau hefyd y posibilrwydd o drefnu i dorri'r ardal unwaith y flwyddyn er mwyn ei chynnal, ac roedd y Cyngor yn hapus i ymgymryd â'r tasgau hyn | *The Clerk noted that the Pant y Saer sites had been cut and cleared. It was reported that Arwel from the County Council has requested that the Council arrange signage for the site to direct people to it and provide information about its history. Members also discussed the possibility of arranging for the area to be cut once a year to maintain it, and the Council was happy to take on these tasks.*

iii) **Prosiect Iaith | Language Project**

Rhannodd y cadeirydd a'r Clerc eu taflenni a'u cardiau iaith Gymraeg diweddar i helpu i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, hefo Menter Iaith, roeddent yn hapus iawn gyda'n brwdfrydedd a'n syniadau. Darllenodd y cadeirydd e-bost cadarnhaol gan y Fenter Iaith yn canmol ein gwaith fel cyngor. | *The chair and Clerk shared the council's recent Welsh language leaflets and cards to help encourage the use of Welsh with Menter Iaith; they were very happy with our enthusiasm and ideas. The chair read a positive email from Menter Iaith praising our work as a council.*

- Cytunodd y Cyngor y dylai'r clerch archebu blwch arall o'r cardiau bach Cymraeg a gofyn i'n pencampwr iaith Gymraeg RhMJ ychwanegu cwpl mwy o ymadroddion. Mae'r cyngor yn hapus gyda Vinyls4U fel darparwr y rhain a bod eu prisiau'n rhesymol iawn | *The Council agreed that the clerk should order another box of the smaller Welsh language cards and ask our Welsh language champion RhMJ to add a couple more phrases. The council are happy with Vinyls4U as provider of these and that their prices are very reasonable.*

iv) **Croes Wion er gwybodaeth | For information**

Bydd yr arwydd yn cael ei osod yn fuan iawn. Mae'r cynnwys wedi'i wirio a'i gwblhau | *The sign will be installed very soon. The content has been checked and finalised.*

v) **Enwi stryd | Street Naming**

Trafododd y cyngor awgrym enw priodol ar gyfer 'Rocky Road' ym Menllech, pleidleisiodd y cyngor a chytunwyd y dylid cynnig 'Lon Gerrig' | *The council discussed an appropriate name suggestion for 'Rocky Road' in Benllech, they voted and it was agreed that 'Lon Gerrig' should be put forward.*

6. Cynllunio | Planning

6.1.1 - Penderfyniad Cynllunio / Planning Decision HHP/2025/204
CANIATÂD gyda'r amodau | *GRANTED with conditions*

7. Cyllid a Thaliadau | Finance & Payments

7.1.1 - Balansau | Balances

06/02/2026	Credit	Gwaith Bedd Mynwent	Other Income	£55.00	£6,858.16
11/02/2026	PYMT	Vynyls4U Prosiect Iaith / Language Project	Expenses	£97.20	£6,760.96
12/02/2026	PYMT	BLACHERE COEDEN NADOLIG	Expenses	£1,635.00	£5,125.96
13/02/2026	D/D	PLAN.COM FFÔN SYMUDOL	Expenses	£24.23	£5,101.73
16/02/2026	Credit	Gwaith Bedd Mynwent	Other Income	£330.00	£5,431.73
19/02/2026	Credit	CSYM Child Burial Grant	Other Income	£236.63	£5,668.36
23/02/2026	S/O	Cyflog y Clerc Salary	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£1,962.75	£3,705.61
24/02/2026	Transfer	FROM RESERVE	TRANSFER	£5,000.00	£8,705.61
24/02/2026	RHODD	Yr Arwydd	Expenses	£250.00	£8,455.61
24/02/2026	PYMT	CSYM Blaen y Coed Prosiect Meinciau	Expenses	£570.00	£7,885.61
24/02/2026	PYMT	DH Williams Trwsio Safle Bws a Fainc	Expenses	£1,785.00	£6,100.61
24/02/2026	RHODD	Yr Urdd Cyfle I Pawb	Expenses	£230.00	£5,870.61
25/02/2026	Credit	Llogi Offer Cyfieithu	Other Income	£150.00	£6,020.61
02/03/2026	PYMT	Pensiwn/Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£571.71	£5,448.90
02/03/2026	D/D	NW BUS CREDIT CARD	Expenses	£15.11	£5,433.79
10/03/2026	Transfer	FROM RESERVE	TRANSFER	£5,000.00	£10,433.79
10/03/2026	PYMT	RHIANNON CYFIEITHU	Expenses	£59.70	£10,374.09
10/03/2026	PYMT	Seated Furniture Ltd Fainc/Bench	Expenses	£616.77	£9,757.32
11/03/2026	Credit	Gwaith Bedd Mynwent	Other Income	£80.00	£9,837.32
12/03/2026	Credit	CSYM Cyfraniad Torri Gwair Grass Cutting Contribution	Other Income	£1,821.20	£11,658.52
12/03/2026	PYMT	BLACHERE COEDEN NADOLIG	Expenses	£1,838.52	£9,820.00
13/03/2026	D/D	PLAN.COM FFÔN SYMUDOL	Expenses	£24.23	£9,795.77

Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol bod yr holl drafodion yn gywir ac yn briodol. Llofnododd y Cadeirydd y cymodiad misol | *It was proposed, seconded and agreed unanimously that all transactions are accurate and appropriate. The Chair signed the monthly reconciliation.*

Balans wrth gefn | *Reserve balance: £49,524.30*

7.1.2 - Trafod Balans y Gronfa Wrth Gefn | *Discussion on Reserve Account Balance*

Trafodwyd balans uchel y cyfrif wrth gefn. Nodwyd bod y balans yn fwriadol uchel gan fod y Cyngor yn cynllunio datblygu cyfleuster chwarae ar gyfer plant hŷn yn y gymuned dros y 12–24 mis nesaf. Gallai hyn gynnwys prynu neu brydlesu tir, yn ogystal â chaffael offer addas | *The high balance of the reserve account was discussed. It was noted that the balance is intentionally high as the Council is planning to develop a play facility for older children in the community over the next 12–24 months. This may involve the purchase or lease of land, as well as the procurement of appropriate equipment.*

7.2 - Taliadau wedi'u prosesu | *Payments processed*

- **Fainc | Bench Lon Pant y Cudyn £616.77** – Gwariant cyfalaf | *Capital expenditure* - Nodwyd bod y Clerc wedi ymchwilio i amryw o wefannau i sicrhau'r pris gorau ar gyfer y fainc, ac wedi argymhell parhau gyda'r contractwr presennol oherwydd pris cystadleuol, ansawdd uchel y cynnyrch a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol | *It was noted that the Clerk had reviewed various websites to compare the best price for the bench and recommended continuing with the existing contractor due to competitive pricing, high-quality products, and excellent customer service.*
- **Cyflenwadau swyddfa | Office supplies (Sellotape & A4 Plastic Sleeves) - £3.30** (Credit Card) Nodwyd bod angen prynu cyflenwadau swyddfa gwerth £3.30 i gefnogi gweithrediad dyddiol y Cyngor | *It was noted that office supplies to the value of £3.30 were required to support the day-to-day operation of the Council.*
- **Cyfieithydd | Translator - £59.70** - Nodwyd bod taliad wedi'i wneud i'r cyfieithydd rheolaidd am wasanaethau cyfieithu a ddarparwyd i gefnogi gwaith y Cyngor | *It was noted that a payment was made to the regular translator for translation services provided to support the work of the Council.*
- **Ffi flynyddol cerdyn credyd | Annual fee for credit card - £30.** Nodwyd bod ffi flynyddol o £30 ar gyfer y cerdyn credyd busnes wedi'i thalu. Atgoffwyd yr aelodau bod telerau ac amodau'r cerdyn wedi'u trafod a'u cytuno pan gafodd y cerdyn ei sefydlu | *It was noted that the £30 annual fee for the business credit card had been paid. Members were reminded that the terms and conditions of the card were discussed and agreed when the card was set up.*
- **Blachere Final Year Hire - £1,664.28 + £174.24** (seren | *star*) Taliad wedi'i wneud o dan gytundeb cytundebol presennol ac o fewn y gyllideb gymeradwy | *Payment made under existing contractual agreement and within approved budget.*

- **Vinyls4U - £300 inc. VAT** | Nodwyd bod costau argraffu taflenni Cymraeg yn £300 (gan gynnwys TAW). Mynegodd yr aelodau eu bod yn fodlon iawn ar ansawdd y taflenni ac yn cytuno bod y pris, fel arfer gyda'r cwmni lleol Vinyls4U, yn rhesymol iawn | *It was noted that the printing costs for the Welsh language leaflets were £300 (including VAT). Members expressed that they were very pleased with the quality of the leaflets and agreed that the price, as usual with this local company Vinyls4U, is very reasonable.*

7.3- Cymeradwyo Taliadau/Pryniannau | *Payments/purchases to approve*

- **Torri Gwair | Grass Cutting 2025-26** - £5075.75 - Cynigiwyd, eiliwyd ac fe'i cytunwyd yn unfrydol i dalu'r bil hwn | *It was proposed, seconded and unanimously agreed to pay this bill. (£1821.20 gan CSYM | From IoACC)*
- **Torri Gwair | Grass Cutting 2026-27** - Trafodwyd trefniadau torri glaswellt ar gyfer 2026–27. Cytunodd yr aelodau, yn ymwybodol o'r angen fel arfer i geisio dyfynbrisiau lluosog, i barhau gyda Mr Edwards oherwydd ei wasanaeth dibynadwy, safon uchel y gwaith, a phris rhesymol | *The arrangements for grass cutting for 2026–27 was discussed. Members, being aware of the usual requirement to seek multiple quotations, agreed to continue with Mr Edwards due to his reliable service, high standard of work, and reasonable cost.*
- **Microsoft 365 taliad blynyddol | Annual subscription** - Cytunodd yr aelodau y gellir talu £84.99 am danysgrifiad blynyddol Microsoft gan ddefnyddio'r cerdyn credyd busnes | *Members agreed that £84.99 for the Microsoft annual subscription can be paid using the business credit card.*
- **Ail-gofrestru Pensiwn | Pension Re-enrolment** – Cytunodd y Cyngor i dalu ffi o £50 i Edwards Accounting i ailgofrestru'r Clerc yn y cynllun pensiwn fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. | *The Council agreed to pay a £50 fee to Edwards Accounting to re-enrol the Clerk in the pension scheme as is legally required.*
- **Gosod Blychau Adar | Bird Boxes Installation** - Dyfynbris o | *Quote of - £250*
Cytunwyd i dalu £250 i DH Williams am osod blychau adar. Nodwyd bod yr aelodau yn fodlon â'r contractwr yn seiliedig ar waith blaenorol ac bod y gost yn rhesymol ac yn cynrychioli gwerth am arian. O ystyried gwerth isel y gwaith, cadarnhawyd bod hyn yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor ac nad oedd angen cael tri dyfynbris | *It was agreed to pay £250 to DH Williams for the installation of bird boxes. Members confirmed they were satisfied with the contractor based on previous work undertaken for the Council, and that the cost is reasonable and represents value for money. Given the low value of the work, it was confirmed that this is in accordance with the Council's Financial Regulations and that obtaining three quotations was not required.*
- **Basged Grog | Hanging Basket** – Cymeradwyodd y cyngor i'r Clerc brynu basged grog a phlanhigion bach, hawdd eu cynnal a chadw a chytuno ar gynllun cynnal a chadw ar ei gyfer | *The council approved for the Clerk to purchase a hanging basket and small, low maintenance plants and to agree a maintenance plan for it.*
- **Ffi am redeg y wefan 2026-27 | Fee for hosting website - £218** (Anglesey Computer Solutions) Penderfynodd y Cyngor fod y gost o £218 ar gyfer y darparwr lletya gwefan presennol yn dderbyniol, gan ystyried parhad y gwasanaeth a gwerth am arian, ac y gall y Clerc wneud y taliad | *The Council resolved that the £218 cost for the existing website hosting provider is acceptable, taking into account continuity of service and value for money, and that the Clerk may make the payment.*
- **Er Gwybodaeth | For Information** - Mae TAW wedi'i hawlio **£2375.43** VAT claim sent.

- **Gwariant Cyfalaf | Capital Expenditure** - Nodwyd nad oedd tri dyfynbris wedi'u ceisio ar gyfer rhai eitemau gwariant. Eglurwyd bod £2,700 a wariwyd ar 22.12.25 ar atgyweirio ffens y parc (wedi'i ariannu drwy grant) a £2,466 (9.1.26) ar fyrddau synhwyraidd y parc i'w cofnodi fel gwariant cyfalaf. Mewn perthynas â'r byrddau synhwyraidd, nodwyd bod y Clerc wedi ymchwilio i brisiau a chwmnïau ar-lein ac wedi ystyried y gost yn dderbyniol. O ran atgyweirio'r ffens, ystyriwyd bod y risg yn isel gan ei fod wedi'i ariannu drwy grant, a bod y gost wedi'i hystyried yn rhesymol iawn gan y contractwr lleol, DH Williams. Cytunodd yr aelodau bod y gwerth am arian yn briodol yn yr achosion hyn | *It was noted that three quotations had not been obtained for certain items of expenditure. It was clarified that the £2,700 spent on 22.12.25 on the repair of the park fence (grant funded) and £2,466 (9.1.26) for the park sensory boards should be recorded as capital expenditure. In relation to the sensory boards, it was noted that the Clerk had researched prices and companies online and considered the cost to be acceptable. In respect of the fence repair, the risk was considered low as it was funded by a grant, and the cost was deemed very reasonable by the local contractor, DH Williams. Members agreed that value for money was achieved in these instances.*

7.4 - Lwfans yr Aelodau | Members Allowance - Rhoddodd y Clerc slipiau lwfans i'r aelodau, yn unol â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (PACGA), lle gallent ddewis yn gyfrinachol ac arwyddo i dderbyn neu wrthod eu lwfans ar gyfer 2025–26 | *The Clerk provided members with allowance slips, in accordance with the requirements of the Independent Remuneration Panel for Wales (IRPW), allowing them to confidentially select and sign whether they wished to accept or decline their allowance for 2025–26.*

8. Llywodraethu, Polisiâu a Chydymffurfiaeth | Governance, Policies and Compliance

8.1 - Aseiad Risg | Risk Assessment

Adolygwyd y gofrestr risg a chytunwyd i'w mabwysiadu. Mynegodd yr aelodau eu bod yn fodlon y bydd y Clerc yn ychwanegu adran yn ymwneud â'r risg sy'n deillio o goed neu blanhigion a blannir mewn mannau cyhoeddus | *The risk register was reviewed and adopted. Members confirmed they were satisfied that the Clerk will add a section regarding risks arising from trees or plants planted in public areas.*

8.2 - Cofrestr Asedau | Asset Register

Adolygwyd y gofrestr asedau, a nodwyd bod y fersiwn fwy cryno yn haws ei darllen. Cytunwyd i'w mabwysiadu | *The asset register was reviewed, and it was noted that the more concise version was easier to read. It was agreed to adopt it.*

8.3 - Pwyllgor Datblygu Prosiectau | Project Development Committee

Trafododd y Cyngor yr angen am Bwyllgor Datblygu Prosiectau a chytunwyd nad oedd angen sefydlu pwyllgor o'r fath ar hyn o bryd. Nodwyd bod gan yr aelodau ystod eang o wybodaeth a sgiliau, a chytunwyd y dylai'r Clerc wahodd aelodau i gefnogi prosiectau penodol yn ôl eu sgiliau a'u profiad. | *The Council discussed the need for a Project Development Committee and agreed that it was not necessary to establish such a committee at this time. It was noted that members have a wide range of knowledge and skills, and it was agreed that the Clerk should invite members to support specific projects according to their skills and experience.*

9. Adroddiad gan y Cynhorydd Sir | Report from County Councillor

Rhoddodd y Cynhorydd Sir ddiweddiariad i'r aelodau ar faterion perthnasol gan y Cyngor Sir | *The County Councillor provided members with updates on relevant matters from the County Council.*

10. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | Any additional matters discussed, not on the agenda.

i) Y libart – Nodwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi plannu dau goeden hardd yn yr ardd goffa (Y Libart). Cytunwyd y bydd y Clerc yn ychwanegu hyn at y gofrestr risg i ystyried unrhyw beryglon posibl wrth i'r coed dyfu (gweler 8.1) | *It was noted that a member of the public had planted two beautiful trees at the memorial garden (Y Libart). It was agreed that the Clerk will add this to the risk register to consider any potential hazards as the trees grow (see 8.1).*

ii) Ymddiheurodd y Clerc am fethu e-bost gan Neuadd Llanbedrgoch yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw. Cadarnhawyd y bydd y cais yn cael ei roi'n ffurfiol ar agenda cyfarfod y mis nesaf. Eglurodd y Clerc hefyd, er bod y Cyngor Cymuned yn awyddus i gefnogi neuaddau cymunedol, nad yw cyfraniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn awtomatig bob blwyddyn, ond yn hytrach yn cael eu hystyried fesul cais unigol, gan ystyried sut y byddai'r cyllid yn cefnogi'r gymuned | *The Clerk apologised for missing an email from Llanbedrgoch Hall requesting a contribution towards maintenance costs. It was confirmed that the request will be formally included on the agenda for next month's meeting. The Clerk also clarified that while the Community Council is keen to support community halls, such contributions are not made automatically on an annual basis, but are considered on an individual application basis, taking into account how the funding would benefit the community.*

iii) Cytunwyd y bydd trafodaeth yn cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf ynghylch Traeth Coch a sut y gellir gwella'r ardal werdd | *It was agreed that a discussion will be included on the agenda for the next meeting regarding Red Wharf Bay and how the green area can be improved.*

Rhannwyd dyddiadau ar gyfer 2026-27 | Meeting dates for 2026-27 were shared

Mis Month	Dyddiad Date
Ionawr January	26 – 01 - 2026
Chwefror February	23 – 02 - 2026
Mawrth March	23 – 03 - 2026
Ebrill April	27 – 04 - 2026
Mai May	18 – 05 - 2026
Mehefin June	22 – 06 - 2026
Gorffennaf July	27 – 07 - 2026
Medi September	21 – 09 - 2026
Hydref October	26 – 10 - 2026
Tachwedd November	23 – 11 - 2026
Rhagfyr December	TBC
Ionawr January	25 – 01 - 2027
Chwefror February	22 – 02 - 2027
Mawrth March	22 – 03 - 2027

Daeth y cyfarfod i ben am **20:30** | *The meeting ended at 20:30*

Bydd y cyfarfod nesaf ar 27.4.2026 | *The next meeting will be on 27.4.2026*